



Llais y Diwydiant Ynn



Gweledigeth

feiddgar ar gyfer

dyfodol ynni

yng Nghymru



Cynnwys

Rhagair 1



Sicrhau bod ynni'n cyflawni er lles pobl Cymru

1. Adeiladau fforddiadwy a chynnes, sy'n addas ar gyfer y dyfodol 2-4
2. Sbarduno Cymru gyda swyddi gwyrdd da 4-5



Rôl Cymru wrth gyflawni'r trawsnewid ynni glân

3. Cynyddu ynni adnewyddadwy a chadwyni cyflenwi 6-8
4. Cynyddu technolegau carbon isel a CCUS 8-9
5. Moderneiddio cynllunio a seilwaith 10-11
6. Mynd i'r afael â phroblemau capasiti brys y rhwydwaith grid yng Nghymru 12-13



Rhagair

Mae Cymru mewn cyfnod hollbwysig yn ei thrawsnewidiad ynni. Daw etholiadau 2026 ar adeg pan fydd penderfyniadau a wneir yn ystod y blynyddoedd nesaf yn pennu nid yn unig sut mae Cymru'n cyflawni ei hamcanion hinsawdd, ond sut mae'n sicrhau ei dyfodol economaidd.

Bydd ynni, a chostau byw ehangach, yn bryder allweddol i bleidleiswyr wrth i ni fynd i mewn i etholiadau Cymru ym mis Mai. Mae biliau'n parhau'n uchel, mae cymunedau'n ofni dad-ddiwydiannu ac adeiladu seilwaith heb ei reoli, ac mae'r argyfwng costau byw yn parhau i frathu. Er mai darparu mwy o ynni cartref glân yw'r unig ffordd i gyflawni biliau cynaliadwy is dros y tymor hir, mae camau gweithredu y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd nawr i sicrhau y gall aelwydydd a busnesau deimlo manteision llawn y trawsnewidiad ynni.

Gyda'r arweinyddiaeth a'r uchelgais iawn, gall Cymru chwarae rhan bwysig yn chwyldro ynni glân y DU. Gyda digonedd o adnoddau naturiol, treftadaeth ddiwydiannol, a gweithlu medrus, mae gan Gymru'r holl gynhwysion sydd eu hangen arni i gyflawni trawsnewidiad uchelgeisiol. Gallai diwydiant ynni adnewyddadwy Cymru ar ei ben ei hun **ddenu bron i £47 biliwn mewn buddsoddiad preifat erbyn 2035**¹, a **mwy na £50 biliwn** os cynhwysir y buddsoddiadau grid trosglwyddo cysylltiedig. Mae hynny bron ddwywaith maint cyllideb gyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26, sy'n sefyll ar **oddeutu £26 biliwn** – sy'n cynrychioli cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i yrru twf economaidd hirdymor a thorri biliau ynni. Byddai'r buddsoddiad hwnnw yng Nghymru yn cefnogi prentisiaethau a swyddi o Bort Talbot i Ynys Môn, yn cryfhau cymunedau ac yn hybu ffyniant.

Ond nid yw uchelgais yn unig yn ddigon. Rhaid inni symud yn gyflymach i ddatgloi buddsoddiad, symleiddio cynllunio, a chyflawni'r grid a'r seilwaith sydd eu hangen ar Gymru i bweru ei dyfodol. Bydd cydlynu rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, a diwydiant yn hanfodol – gan sicrhau bod pob penderfyniad polisi, pob prosiect, a phob punt a fuddsoddir yn gweithio tuag at filiau rhatach, amgylchedd ffyniannus, ac economi Gymreig ffyniannus. Yr hyn sydd ei angen nawr yw arweinyddiaeth feiddgar a chyflawni clir i gael gwared ar rwystrau, cryfhau datganoli lle mae'n ychwanegu gwerth, a darparu'r sicrwydd sydd ei angen ar fusnesau i fuddsoddi ar raddfa fawr.



Sicrhau bod ynni'n cyflawni er lles pobl Cymru



1. Adeiladau fforddiadwy a chynnes, sy'n addas ar gyfer y dyfodol

Mae biliau ynni yng Nghymru yn rhy uchel. Mae'r ateb yn glir, bydd system ynni lanach ac economi drydanol yn gostwng biliau'n gynaliadwy. Ar yr un pryd, mae angen gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â'r argyfwng fforddiadwyedd presennol, sy'n cael effaith ddofn ar aelwydydd a busnesau yng Nghymru.

Bydd gan filiau ynni uchel parhaus drwy gydol y 2020au ganlyniadau gwirioneddol a pharhaol i aelwydydd a lles cymunedau, a gallent hefyd wanhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn nhrawsnewidiad hirdymor ein system ynni. Eto i gyd, y buddsoddiad hwnnw mewn ynni glân a seilwaith ynni wedi'i foderneiddio fydd yn y pen draw yn darparu'r hyn sydd ei angen fwyaf ar bobl - ynni diogel, fforddiadwy a chartrefi cynhesach.

Mae Llywodraeth y DU wedi gosod uchelgais o gyflawni gostyngiad o **£300 ym mil ynni tanwydd deuol cyfartalog aelwydydd**. Fe wnaethant gymryd cam pwysig tuag at hyn yng Nghyllideb yr Hydref drwy ddod â chynllun y Rhwymedigaeth Cwmni Ynni i ben, a **symud 75% o gost y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy** o filiau i drethi cyffredinol, sy'n gostwng cydran cost polisi'r bil ynni. Er bod y cam cychwynnol hwn yn ddymunol, er mwyn cyflawni gostyngiadau pellach, mae angen mynd i'r afael ag achosion sylfaenol costau ynni uchel. Bydd gostyngiad gwirioneddol, parhaol yn dibynnu ar ddiwygio strwythurol hirdymor i sut mae ynni'n cael ei brisio a sut y telir amdano. Dyna pam y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i chwarae rhan weithredol wrth bwysu ar gyflawni'r ymrwymadau hyn i sicrhau y gall aelwydydd ar draws Cymru elwa o filiau ynni is a thecach.

Gan weithio gyda Llywodraeth y DU, dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael yn gyflym â meysydd sydd â chyfyngiadau sylweddol ar y grid, gan gyflymu adeiladu rhwydwaith trwy gynllunio gwell. Byddai hyn yn gwella costau system a gallai **arbed £50 fesul aelwyd yn 2030**.²

Mae'r ateb yn glir, bydd system ynni lanach ac economi drydanol yn gostwng biliau'n gynaliadwy.



Fodd bynnag, mae'n debyg y ceir yr arbedion mwyaf mewn dulliau mwy targedig sy'n manteisio i'r eithaf ar dechnolegau carbon isel fel pypmiau gwres, rhwydweithiau gwres, paneli solar a gwefru cerbydau trydan. Bydd cyflymu'r defnydd o'r technolegau hyn yn galluogi aelwydydd a busnesau i ddefnyddio trydan yn fwy effeithlon a symud y defnydd i gyfnodau rhatach, carbon isel. Yn hollbwysig, mae galw cynyddol am drydan hefyd yn lledaenu costau rhwydwaith a system sefydlog ar draws sylfaen cwsmeriaid fwy, gan helpu i leihau costau fesul uned i bawb. Bydd sicrhau bod y seilwaith hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y tymor hir yn hanfodol i ddiwallu'r galw cynyddol, cefnogi buddsoddiad preifat, a darparu ar gyfer cyflwyno gwresogi trydan, trafndiaeth a thechnolegau carbon isel eraill ar raddfa fawr.

Dengys modelu wedi'i ddiweddarau gan Energy UK, yn dilyn ymyrraeth Cyllideb yr Hydref, y gallai ailgydbwysu costau polisi arbed £240 pellach i gartrefi sy'n defnyddio gwresogi trydan, gan wneud cyfraniad ystyrlon at fforddiadwyedd a datgarboneiddio gwresogi cartrefi.

Er bod llawer o'r dulliau polisi pwysicaf yn parhau wedi'u neilltuo, bydd gan Lywodraeth Cymru offer pwysig wrth law o hyd i helpu i ostwng biliau i gartrefi Cymru, gan gynnwys:



Adolygu hawliau datblygu a ganiateir (PDRs) i hwyluso gosod uwchraddiadau effeithlonrwydd ynni a thechnolegau carbon isel.



Edrych ar ymestyn y Rhaglen Ôl-osod Optimeiddiedig, yn unol ag uchelgeisiau ar gyfer datgarboneiddio gwresogi a lleddfu tloidi tanwydd.



Cyflwyno cynllun tebyg i gynllun Ynni Busnes yr Alban sydd ar waith yn yr Alban ar hyn o bryd, a redir gan Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (EST). Yn 2022/23, dyfarnodd £122 miliwn mewn benthyciadau i ddeiliaid tai a busnesau i wella eu heffeithlonrwydd ynni, gosod ynni adnewyddadwy neu newid i drafnidiaeth gynaliadwy.



Cefnogi'r broses o gyflwyno mesuryddion clyfar, gan gynnwys uwchraddio mesuryddion mewn tai cymdeithasol ac adeiladau'r llywodraeth, a defnyddio cyfathrebu cefnogol, rhagweithiol ac adweithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno neges gyson a chadarnhaol sy'n tanlinellu pwysigrwydd y broses gyflwyno a'i rôl wrth ddarparu system drydan carbon is a diogel.



Gosod cyfeiriad clir ar gyfer gwefru Cerbydau Trydan (EV), capasiti rhwydwaith a chynllunio i ddatgloi buddsoddiad preifat a sicrhau bod seilwaith yn cadw i fyny â'r galw am drafnidiaeth ac ynni yn y dyfodol.

Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny, gall y diwydiant:



Buddsoddi gyda hyder mewn sgiliau, cadwyni cyflenwi ac arloesi i raddio atebion ôl-osod gwres carbon isel a chartrefi cyfan.



Cydlynu gweithgaredd cyflwyno gyda rhwydweithiau, gosodwyr a gweithgynhyrchwyr fel bod cartrefi'n barod ar gyfer pŷmpiau gwres, rhwydweithiau gwres a gwasanaethau hyblygrwydd.



Cyflymu'r ddarpariaeth ar raddfa fawr, gan ostwng costau, gwella profiad cwsmeriaid a chefnogi aelwydydd allan o dlodi tanwydd yn gyflymach.

2. Sbarduno Cymru gyda swyddi gwyrdd da

Mae Cymru wedi chwarae rhan ganolog ers tro byd wrth bweru'r DU, o'i meysydd glo i'w chyfraniadau presennol at gynhyrchu ynni. Rhaid inni ddysgu o'r newid mawr diwethaf yn economi ynni Cymru, gan sicrhau bod cymunedau'n cael eu cynnwys mewn cynllunio hirdymor a bod y newid economaidd yn deg i'r rhai yr effeithir arnynt gan y newid diwydiannol. Wrth i ni gynyddu cynhyrchu ynni glân a seilwaith modern, mae gan Gymru'r cyfle i wneud pethau'n wahanol - trwy gynllunio ymlaen llaw, buddsoddi'n lleol, a sicrhau bod datblygiad ynni newydd yn cefnogi swyddi, sgiliau a ffyniant yn y cymunedau sy'n ei gynnal.

Dylai datgarboneiddio'r economi fod yn gatalydd ar gyfer cyfleoedd, gan greu swyddi diogel â chyflog da a gyrru buddsoddiad hirdymor yng nghymunedau Cymru. Gall fod yn drawsnewidiad sy'n cefnogi gweithwyr, yn cryfhau economïau lleol, ac yn sicrhau bod y manteision hyn yn cael eu rhannu'n eang.

Er mwyn sicrhau llwyddiant, mae angen i Lywodraeth Cymru a diwydiant weithio law yn llaw i gyfarparu pobl â'r sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen i symud i rolau sy'n wynebu'r dyfodol, yn enwedig yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt fwyaf gan ddirywiad diwydiannol.

Wrth i ni gynyddu cynhyrchu ynni glân a seilwaith modern, mae gan Gymru'r cyfle i wneud pethau'n



I wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru:



Blaenoriaethu llwybrau pontio teg ar gyfer gweithwyr olew a nwy, gan gynnwys ailhyfforddi ac adleoli i ynni adnewyddadwy, dal, defnyddio a storio carbon (CCUS), a rolau grid.



Ehangu buddsoddiad mewn colegau, prentisiaethau, a chanolfannau hyfforddi sy'n canolbwyntio ar ddiwydiannau ynni glân.



Gweithredu ymrwymiadau yn strategaeth ddiwydiannol fodern y DU, gan gynnwys ystyried anghenion strategaeth ddiwydiannol, rhai wrth ddatblygu polisi prentisiaethau a sgiliau ehangach yn y dyfodol, gan weithio'n agos gyda Medr.



Gweithio gyda'r diwydiant ynni a Llywodraeth y DU i weithredu'r Cynllun Swyddi Ynni Glân, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer cydweithio cyhoeddus a phreifat.



Archwilio creu Cronfa Pontio Teg Cymru, wedi'i modelu ar gronfa Gogledd-ddwyrain yr Alban a Moray, i gefnogi cymunedau meysydd glo a diwydiant trwm yn y Cymoedd, Wrecsam, Port Talbot a thu hwnt.

Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny, gall y diwydiant:



Darparu miloedd o swyddi o ansawdd uchel, hirdymor a diogel yng Nghymru.



Buddsoddi'n hyderus mewn cadwyni cyflenwi a sgiliau Cymru.



Yn y pen draw, darparu trydan rhatach a glanach i bobl ledled y genedl.

Rôl Cymru wrth gyflawni'r trawsnewid ynni glân




3. Cynyddu ynni adnewyddadwy a chadwyni cyflenwi

Mae Cymru yn gartref i rai o asedau ynni adnewyddadwy gorau'r DU, o wynt ar y tir ac ar y môr i ynni solar a hydroelectrig. Yn fwy na hynny, mae ganddi sawl porthladd – gan gynnwys Port Talbot, Caerdybi, ac Aberdaugleddau – sydd mewn lleoliadau delfrydol i gefnogi diwydiannau gwynt ar y môr, hydrogen, gwynt arnofiol, a thechnolegau eraill.

Mae ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn cynrychioli un o'r cyfleoedd cliraf a mwyaf uniongyrchol i sicrhau buddion parhaol a thrawsnewidiol i Gymru. Gall targed Llywodraeth Cymru o gyflawni ynni glân erbyn 2035 ddatgloi buddsoddiad, twf a sgiliau digynsail ar draws pob rhan o'r wlad. Gallai ehangu ynni adnewyddadwy gynhyrchu **£46.9 biliwn o fuddsoddiad preifat**, y byddai dros **£10 biliwn** ohono yn llifo'n uniongyrchol i fusnesau Cymru. Gallai'r twf hwn gefnogi tua **8,000 o swyddi o ansawdd uchel**, â chyflog da mewn cymunedau gwledig a threfol fel ei gilydd, gyda chyflogau cyfartalog **26% yn uwch** na chyfartaledd Cymru, a darparu **hyd at £7 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol**. Yn hollbwysig, byddai'r prosiectau hyn hefyd yn darparu **£183 miliwn mewn cronfeydd budd cymunedol**, gan helpu pobl leol i rannu'n uniongyrchol yn y newid ynni glân.³

Gallai ehangu ynni adnewyddadwy gynhyrchu £46.9 biliwn o fuddsoddiad preifat.

Fodd bynnag, mae rhwystrau sylweddol sy'n arafu'r broses o ddarparu ynni glân yng Nghymru. Mae prosiectau cynhyrchu newydd yn wynebu oedi, mae cyfalaf yn symud i fannau eraill, mae buddsoddwyr yn nodi ansicrwydd yn y system gynllunio a'r fframweithiau rheoleiddio, ac mae datblygwyr grid yn wynebu oedi i'w cynlluniau buddsoddi eu hunain ar gyfer uwchraddio a seilwaith rhwydwaith ychwanegol (manylion isod).



Ffynhonnell: ³ Renewable Cymru.

I wrthdroi'r duedd hon, rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i greu'r amodau i ddatgloi buddsoddiad, cyflymu'r broses o'i ddefnyddio, ac atgyfnerthu hyder buddsoddwyr.

Gellid cyflawni hyn drwy:



Ehangu buddsoddiad mewn ynni gwynt ar y môr ac ar y tir, solar, hydrodrydanol, ffrwd lanw, a gwynt arnofiol – gan fanteisio ar ddaearyddiaeth naturiol a seilwaith porthladdoedd Cymru. Gall adnoddau llanw ddarparu cynhyrchu carbon isel cyflenwol yn y dyfodol, tra bod diwydiant yn parhau i ganolbwyntio ar brosiectau y gall eu cyflawni ar raddfa fawr.



Beod yn bartner clir a strategol, gan weithio gyda Llywodraeth y DU a diwydiant i gyflawni model prasio cenedlaethol diwygiedig yn y ffordd orau sy'n darparu ar gyfer cartrefi a diwydiannau yng Nghymru, gan sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn lle deniadol i fuddsoddi ynddo.



Gweithio gyda'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ) i sicrhau bod diwygiadau cysylltu grid cynhyrchu yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.



Gweithio gyda Llywodraeth y DU, Ofgem, National Energy System Operator (NESO), gweithredwyr rhwydweithiau ynni a'r sector ehangach i sefydlu dull strategol effeithiol o gysylltu galw newydd ac alinio hyn â chapasiti cynhyrchu carbon isel lleol.



Cefnogaeth barhaus i grwpiau ynni cymunedol ac awdurdodau lleol drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys technolegau solar, gwynt, ynni dŵr, a storio ynni.

- Rhwng 2018 a 2023, mae sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r gymuned wedi buddsoddi **£169.8 miliwn** mewn effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a fflydoedd di-allyriadau, gan arwain at arbedion gydol oes o tua **£320.8 miliwn**.⁴




Cryfhau rôl Ynni Cymru wrth gyflawni a chydlynu â Great British Energy, Y Gronfa Gyfoeth Wladol, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol i gyflwyno prosiectau carbon isel a chlyfar, gan osgoi dyblygu lle mae'r sector preifat eisoes yn buddsoddi yng Nghymru a meithrin ymgysylltiad.

Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn, yna gall y diwydiant:



Cynyddu buddsoddiad mewn porthladdoedd, gweithgynhyrchu a chadwyni cyflenwi Cymru i fanteisio ar werth economaidd prosiectau ynni glân.



Cyflymu cyflawni prosiectau adnewyddadwy, gan greu swyddi o ansawdd uchel a hybu economïau lleol.



Darparu sicrwydd hirdymor i gymunedau drwy ddatblygu sgiliau, arloesi a phartneriaethau sy'n angori twf glân yng Nghymru.

4. Cynyddu technolegau carbon isel a CCUS

Mae clystyrau diwydiannol Cymru, yn enwedig yn Ne a Gogledd Cymru, yn ganolog i ymdrechion datgarboneiddio'r DU. **Nod Clwstwr Diwydiannol De Cymru yw integreiddio technolegau CCUS a hydrogen**; fodd bynnag, mae diffyg symudiad ar y broses dracio wedi arwain at oedi pellach.

Yn Lloegr, mae ynni niwclear ar hyn o bryd yn cael adfywiad. Mae'r sector yn cyflogi **mwya na 64,000 o bobl** yn uniongyrchol, ac mae **211,000 o swyddi** yn dibynnu mewn rhyw ffordd ar ei weithgareddau. Er bod ynni niwclear angen biliynau o bunnoedd o fuddsoddiad preifat, mae'r fflyd niwclear bresennol hefyd wedi gwneud **cyfraniad o £123 biliwn i'r DU**.⁵

Mae gan Gymru hefyd hanes hir a balch o ynni niwclear, gyda Wylfa ar Ynys Môn a Thrawsfynydd yn chwarae rolau canolog yn system ynni'r DU ers degawdau. Yn dilyn blynyddoedd o ansicrwydd oherwydd cynigion sydd wedi'u hatal a chynnydd araf, mae cyhoeddiad Llywodraeth y DU yn cadarnhau Wylfa fel safle blaenoriaeth ar gyfer datblygiad niwclear newydd yn nodi ailosodiad pwysig ac yn arwydd clir o fwriad.

Mae ynni niwclear yn parhau i fod yn rhan hanfodol o ddyfodol ynni glân y DU, gan ddarparu ynni diogel, carbon isel, cadarn ochr yn ochr ag ynni adnewyddadwy, a chefnogi cyflogaeth hirdymor i bobl â sgiliau uchel. Wrth i Lywodraeth y DU ddatblygu'r rhaglen Adweithydd Modiwlwr Bach (SMR) trwy Great British Nuclear, mae Cymru mewn sefyllfa dda i chwarae rhan flaenllaw, gan adeiladu ar asedau, sgiliau a phrofiad cymunedol presennol. Gall agor safle Wylfa i gystadleuaeth gan ddatblygwyr SMR helpu i sicrhau gwerth am arian a chyflymder y ddarpariaeth. Yn hollbwysig, os cânt eu rheoli'n strategol, gellid wedyn graddio'r sgiliau, y cadwyni cyflenwi a gallu'r gweithlu a ddatblygwyd trwy brosiectau SMR cynnar a'u trosglwyddo i brosiect graddfa gigawat yn y dyfodol yn Wylfa, gan angori capasiti diwydiannol hirdymor a diogelwch ynni yng Ngogledd Cymru.

Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r manteision hyn, rhaid i Lywodraeth newydd Cymru:



Cefnogi a chyflymu'r defnydd o SMR yng Nghymru, gan sicrhau bod o leiaf un prosiect yn cael ei gyflawni fel rhan o'r cyflwyniad cychwynnol gan Great British Energy - Nuclear.



Cynnal Wylfa fel safle niwclear strategol, gyda llwybr clir o SMRs i gynhyrchu ar raddfa fawr yn y dyfodol lle mae hyn yn cefnogi anghenion y system, fforddiadwyedd a gallu diwydiannol y DU.



Cefnogi Clwstwr Diwydiannol De Cymru, gan weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatgloi buddsoddiad mewn seilwaith CCUS a hydrogen.



Cefnogi cynhyrchu a defnyddio hydrogen gwyrdd a glas.



Cyflymu'r cyflwyniad o fodelau busnes clir ar gyfer hydrogen a datblygu rheoleiddio ategol ar gyfer trafndiaeth a storio.

Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn, yna gall y diwydiant:



Defnyddio prosiectau CCUS a hydrogen ar raddfa fawr, gan leihau allyriadau o ddiwydiant trwm wrth ddiogelu cystadleurwydd.



Angori gweithgaredd diwydiannol hirdymor yng Nghymru, gan sicrhau swyddi a denu cyfalaf preifat pellach.



Cyflawni prosiectau niwclear newydd, gan gynnwys adweithyddion modiwlwr bach (SMRs) a gorsafoedd ynni mwy, gan ddarparu ynni llwyth sylfaen sefydlog, swyddi lleol, a buddsoddiad hirdymor.



Buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi a seilwaith Cymru i adeiladu canolfannau ynni glân cystadleuol.



Creu a chynnal swyddi lleol o ansawdd uchel mewn peirianeg, gweithrediadau, a gweithgynhyrchu, gan sicrhau bod cymunedau'n elwa'n uniongyrchol o'r diwydiant ynni glân.

5. Moderneiddio cynllunio a seilwaith

Gyda digonedd o adnoddau naturiol a gweithlu medrus, mae Cymru mewn sefyllfa dda i arwain yn yr economi werdd. Fodd bynnag, ni fydd y potensial hwn yn cael ei wireddu heb ddiwygio brys i'r system gynllunio.

Mae'r system gynllunio bresennol yng Nghymru yn rhwystr mawr i gynnydd. Mae ei phrosesau araf a chymhleth yn gohirio neu hyd yn oed yn tarfu ar brosiectau hanfodol ar gyfer tai, seilwaith ac ynni carbon isel. Mae hyn nid yn unig yn tansellio hyder buddsoddwyr ond mae hefyd yn atal creu swyddi a thwf economaidd.

Mae'r broses gydsynio seilwaith newydd yng Nghymru, a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2025, yn cynrychioli cyfle mawr i gefnogi darparu ynni glân. Fodd bynnag, er mwyn i hyn lwyddo, rhaid i Lywodraeth Cymru fynd y tu hwnt i newidiadau gweithdrefnol a darparu cyfeiriad polisi cryf a chyson, a thrwy hynny ddod â'r patrwm presennol o gyfaddawdu sy'n rhwystro cynnydd i ben. Mae'r diwydiant yn eiriol dros ddatganiadau polisi seilwaith pwrpasol i ategu'r broses, ond ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y gyfres bresennol o bolisi cenedlaethol, sydd heb yr eglurder, y rhagweladwyedd, a'r fframwaith parod i fuddsoddi sydd gan Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol y DU.

Mae blynyddoedd o doriadau cyllidebol a diffyg cynllunio gweithlu hirdymor wedi gadael gwasanaethau cynllunio dan bwysau, heb ddigon o adnoddau, ac yn ei chael hi'n anodd cynnal safonau. Heb gamau gweithredu brys i gyfarparu awdurdodau lleol ac ymgylgoreion statudol â'r adnoddau sydd eu hangen arnynt, mae Cymru mewn perygl o brofi oedi a cholli cyfleoedd i ddarparu'r seilwaith ynni glân y mae cymunedau a'r economi'n dibynnu arno. Drwy gryfhau cyfeiriad polisi, darparu adnoddau i'r system, a buddsoddi mewn sgiliau a chynllunio'r gweithlu, gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y broses gydsynio newydd yn cefnogi darpariaeth amserol o ansawdd uchel ac yn datgloi potensial llawn y trawsnewidiad ynni yng Nghymru.

Er mwyn datgloi buddsoddiad a chyflymu cyflawni prosiectau, mae angen system gynllunio fodern sydd â digon o adnoddau ar Gymru. Mae hyn yn golygu denu a chadw cynllunwyr medrus, buddsoddi mewn offer digidol ac arloesi, a chreu llwybrau gyrfa clir o fewn y proffesiwn. Bydd meithrin gallu a gwydnwch cynllunio yn helpu i sicrhau nad yw prosesau cyflymach yn peryglu ansawdd, a bod cynllunio yn cefnogi, nid yn rhwystro, cyflawni economi carbon isel lewyrchus.

Y tu hwnt i gael gwared ar rwystrau yn y system gynllunio yn unig, rhaid bod partneriaeth fwy rhagweithiol rhwng y llywodraeth a'r diwydiant i esbonio pam mae angen seilwaith newydd, ei rôl yn y trawsnewid ynni, a sut y gall ddarparu manteision pendant i gymunedau.

Er mwyn datgloi buddsoddiad a chyflymu cyflawni prosiectau, mae angen system gynllunio fodern sydd â digon o adnoddau ar Gymru.

Rhaid i'r trafodaethau hyn fod yn gydweithredol, gan sicrhau bod gan bobl leol lais go iawn wrth lunio'r canlyniadau y maent yn eu gwerthfawrogi, tra bod y llywodraeth yn atgyfnerthu'r negeseuon hyn yn weithredol. Nid yw paru uchelgais y diwydiant â chefnogaeth gref gan y llywodraeth yn ddigon i Gymru ddatgloi manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol llawn ei thrawsnewid i ynni, rhaid ymgysylltu'n ystyrlon â chymunedau, a chael budd ohonynt.

I gefnogi hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru:



Cyflwyno ffrwd waith gynllunio o drafodaethau Bargen y Sector Ynni Gwynt ar y Tir neu Fforwm Cyflenwi Ynni Adnewyddadwy i ddod â'r diwydiant, cynllunwyr a llunwyr polisi ynghyd i nodi a datrys rhwystrau ymarferol i gyflawni prosiectau.



Partneru ag ysgolion, colegau a phrifysgolion i hyrwyddo cynllunio fel gyrfa a sefydlu llwybrau mynediad clir i'r proffesiwn.



Annog gweithredwyr trafndiaeth Cymru i wneud cais am gronfa depot £30 miliwn Llywodraeth y DU i helpu i wrthbwyso costau ymlaen llaw uchel ar gyfer trawsnewid.



Sicrhau mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gryfhau capasiti a gallu'r system gynllunio.

Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn, yna gall y diwydiant:



Cyflawni prosiectau sy'n gweithio gyda chymunedau, gan gynnig manteision a systemau sydd wedi'u teilwra orau i'w hanghenion.



Gweithio mewn partneriaeth wirioneddol â chymunedau, gan sicrhau manteision lleol fel swyddi, buddsoddiad a gwasanaethau gwell.



Dod â buddsoddiad preifat mawr ymlaen mewn cynhyrchu adnewyddadwy, uwchraddio grid a seilwaith carbon isel gyda mwy o hyder a sicrwydd.



Cefnogi cenhedlaeth newydd o gynllunwyr ac arbenigwyr technegol, gan gryfhau capasiti a sgiliau lleol ar draws Cymru.



Adeiladu system gynllunio a chyflawni sy'n gyflymach, yn fwy tryloyw ac yn gallu cydbwysu blaenoriaethau cymunedol, amgylcheddol ac economaidd yn well.

6. Mynd i'r afael â phroblemau capasiti brys y rhwydwaith grid yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwallu 100% o'i hanghenion trydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035. Fodd bynnag, bydd hyn yn golygu bod angen seilwaith grid wedi'i ddiweddarau gyda chapasiti rhwydwaith ychwanegol, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru, lle mae llawer o'r cynhyrchu adnewyddadwy yn y dyfodol wedi'i gynllunio. Ar hyn o bryd, nid oes ganddo'r capasiti dosbarthu a throsglwyddo angenrheidiol.

Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn, rhaid trin datblygu'r grid fel blaenoriaeth strategol genedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru sydd mewn grym ar hyn o bryd, yn ffafrio gosod ceblau o dan y ddaear. Fodd bynnag, mae hyn yn peri rhwystrau sylweddol o ran cost a chyflenwi. Mae astudiaethau annibynnol wedi dangos bod gosod llinellau o dan y ddaear, yn hytrach na defnyddio llinellau trosglwyddo uwchben, yn sylweddol ddrytach, rhwng pump a deg gwaith yn ddrytach, yn fwy aflonyddgar i'r amgylchedd ac yn arwain at gostau uwch i ddefnyddwyr a threthdalwyr.⁶

Yn fwy felly, mae'r safbwynt hwn yn anghyson â pholisi ehangach y DU, gan greu mwy o ansicrwydd a gallai arwain at Gymru'n cwmpo y tu ôl i'r Alban a Lloegr, yn hytrach na bod yn bartner hollbwysig wrth roi'r DU ar y llwyfan byd-eang fel arweinydd byd-eang mewn ynni adnewyddadwy.

Wrth i bryder y cyhoedd am seilwaith gynyddu, mae angen arweinyddiaeth genedlaethol glir i esbonio cyfnewidiadau a chyflwyno'r achos dros gyflawni. Mae angen eglurder ar y meini prawf hyfywedd ar gyfer tanddaearu, gan ddefnyddio'r sail dystiolaeth gyfredol ac adlewyrchu amodau trwyddedu gweithredwyr rhwydwaith, er mwyn sicrhau bod Cymru'n elwa o gyfleoedd economaidd ac amgylcheddol trawsnewidiol ynni adnewyddadwy. Er bod trosglwyddo trydan yn fater a gedwir yn ôl, **mae gan Lywodraeth Cymru rôl ganolog mewn rhwydweithiau dosbarthu, gan sicrhau bod cyflawni'n cyd-fynd ag amcanion cenedlaethol a rhaid iddo:**

Mae angen arweinyddiaeth genedlaethol glir i esbonio cyfnewidiadau a chyflwyno'r achos dros gyflawni.



Ailystyried ar frys y rhagdybiaeth gynllunio ar gyfer tanddaearu, gan ystyried cost a data effaith diweddar.



Cyhoeddi signal polisi cryf yn cefnogi pwysigrwydd strategol seilwaith rhwydwaith dosbarthu i ddatgloi cysylltiadau galw a chyflenwad erbyn 2030 a 2035, a throsglwyddo i gyrraedd targedau 2050.



Adolygu hawliau datblygu a ganiateir i gyflymu gwaith galluogi e.e. uwchraddio rhwydwaith sy'n cynnwys ychydig neu ddim seilwaith newydd.



Gweithio gyda NESO i sicrhau bod rhwydweithiau dosbarthu yn cael eu cydnabod yn y Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol trosiannol (tRESP) a bod y cyswllt yn cael blaenoriaeth yn y diweddariad Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog 2 trosiannol (tCSNP2) sydd ar ddod.



Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Grid Cymru-DU i ddod â'r holl chwaraewyr allweddol ynghyd, nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i fuddsoddi yn y grid, a sicrhau nad yw addewid economaidd ac amgylcheddol ynni adnewyddadwy Cymru yn cael ei golli.



Cydweithio'n weithredol â Llywodraeth y DU a'r diwydiant i reoli tirwedd cynllunio grid unigryw Cymru.



Datblygu cynllun ymgysylltu a chyfathrebu addysgiadol a chefnogol, i arwain, ymgysylltu a hysbysu pobl gyda gwybodaeth ffeithiol hawdd ei deall am seilwaith grid trosglwyddo a dosbarthu trydan, a chefnogi ymgysylltiad cyhoeddus trwy hyrwyddo neu gomisiynu trosolwg clir o'r prosesau sy'n gysylltiedig â phrosiectau seilwaith mawr.

Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn, yna gall y diwydiant:



Cyflymu datblygiad prosiectau ynni glân ar draws Cymru, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru, lle mae cyfyngiadau ar y grid wedi llesteirio buddsoddiad.



Dod â chyfalaf preifat ymlaen i uwchraddio a moderneiddio seilwaith, gan gefnogi cadwyni cyflenwi lleol a chyflogaeth fedrus.



Gweithio ar y cyd â gweithredwyr rhwydwaith a chymunedau i atgyfnerthu'r grid yn amserol, yn fforddiadwy ac wedi'i gefnogi'n gyhoeddus.



Llais y Diwydiant Ynn

Energy UK yw'r gymdeithas fasnach ar gyfer y diwydiant ynni, sy'n cynrychioli cwmnïau sy'n buddsoddi biliynau o bunnoedd i sicrhau anghenion ynni presennol a dyfodol ein gwlad.

O fusnesau newydd sy'n tyfu i gynhyrchwyr trydan mawr, datblygwyr grid a seilwaith a chyflenwyr ynni, mae ein haelodau'n gyrru newid ar draws ynni, gwres, trafnidiaeth a hyblygrwydd.

Rydym yn darparu llais cyfunol i'r sector gan weithio gyda llywodraethau, rheoleiddwyr, elusennau a sefydliadau eraill i ddarparu mewnwelediad hanfodol sy'n llunio polisi, yn cynnig atebion ac yn hyrwyddo arfer gorau.

Mae ein barn eang ar draws y system gyfan yn cefnogi safbwyntiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth nad ydynt wedi'u clymu i dechnolegau penodol, ac sy'n canolbwyntio ar ddarparu manteision strategol i bobl, busnesau a'r economi.

Rydym yn hyrwyddo mentrau fel ein [Hymrwymiad Bregusrwydd](#), sy'n gwthio cyflenwyr i fynd y tu hwnt i reoleiddio i gefnogi cwsmeriaid ag anghenion ychwanegol, a [TIDE](#), ymgyrch y diwydiant am fwy o gynhwysiant ac amrywiaeth. Trwy ein [Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Ifanc Ynni](#), rydym yn cefnogi datblygiad arweinwyr y dyfodol.

Rydym yr un mor ymrwymedig i'n tîm ac yn falch o gael ein cydnabod fel cyflogwr Buddsoddwyr mewn Pobl 'Aur'.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'n Uwch Reolwr Materion Cyhoeddus, Shauna Dubler yn shauna.dubler@energy-uk.org.uk.

 [energy-uk.org.uk](https://www.energy-uk.org.uk)

 Dewch o hyd i ni ar LinkedIn

 Dilynwch ni ar Bluesky